

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro**

**Practis Deintyddol
Llaneirwg**

5 Tachwedd 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	7
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	10
	Ansawdd yr Amgylchedd	12
6.	Y Camau Nesaf.....	13
	Atodiad A.....	14

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ym Mhractis Deintyddol Llaneirwg yn 16 Heol Crickhowell, Llaneirwg, Caerdydd, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 5 Tachwedd 2014.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru¹.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Llaneirwg yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llaneirwg, Caerdydd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, un hylenydd deintyddol, pum nyrs ddeintyddol, rheolwr practis, a dau aelod o staff derbynfa. Mae Practis Deintyddol Llaneirwg yn rhan o grŵp tri phractis, a elwir yn Restore Dental Group.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

Mae Practis Deintyddol Llaneirwg yn bractis cymysg sy'n darparu triniaeth breifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol GIG. O ystyried hyn, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis a gofrestrir gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn ogystal â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2011.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Deintyddol Llaneirwg yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan Bractis Deintyddol Llaneirwg, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwnaethom rhai argymelliadau i wella gweithdrefnau dadhalogi ac i wella'r cysondeb o fewn cofnodion cleifion.

Ar adeg yr arolygiad, bu newid perchnogaeth yn y practis yn ddiweddar, ac roedd cyfnod pontio ar waith.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Gwelsom staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm, a dywedodd yr holl staff wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau.

Roedd y practis deintyddol i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr adeilad yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r cleifion gael eu gweld ynddo gan eu deintydd. Mae'r practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaethom siarad â dau o gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad.

Dywedodd y ddau glaf wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan staff y practis. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Dywedodd un claf wrthym:

"[Rwy'n] fodlon iawn. Pobl hyfryd ac mae'r deintydd yn wych. Dydw i byth yn teimlo unrhyw boen."

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Golygai hyn y gallai cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym pe baent yn teimlo poen.

Doedd dim un o'r cleifion y buom yn siarad â nhw wedi profi unrhyw oedi sylweddol wrth iddynt aros i gael eu gweld.

Mae gan y practis wefan llawn gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth i gleifion am y staff sy'n gweithio yn y practis a'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw'r wefan yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ran hysbysebu. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys dolen â gwefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwnaethom sylwi bod y rhif ffôn i gael gofal deintyddol mewn argyfwng y tu allan i oriau wedi'i arddangos, a gwnaethom gadarnhau bod y rhif ffôn argyfwng yn cael ei ddarparu ar beiriant ateb y practis. Golyga hyn y gallai cleifion sydd mewn poen pan fod y deintyddfa ar gau gael mynediad at gymorth.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwnaethom rhai argymelliadau i wella'r gweithdrefnau dadhalogi ac i wella cysondeb cofnodion cleifion.

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pedair o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis, ac roedd y rhain yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Gwnaethom nodi bod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân a thaclus. Roedd yr offer wedi'i storio'n briodol i osgoi halogi.

Dadhalogi

Roedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol, a gwelsom fod prosesau addas ar waith i ddiogelu cleifion rhag croes-heintio. Roedd sinciau penodol i olchi dwylo ar gael, ynghyd ag eitemau untro, er mwyn helpu i reoli heintiau, ac roedd yr holl gyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff.

Roedd llyfrau cofnodion wedi'u cynnal a'u cadw ar gyfer gwirio'r offer, ac roedd yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau i'w weld mewn cyflwr da.

Gwnaethom edrych ar y broses am ddadhalogi a ddefnyddiwyd gan y practis, a gwnaethom sylwi mai dim ond un sinc oedd ar gael ar gyfer glanhau offerynnau. Golygai hyn fod yr offerynnau yn cael eu glanhau a'u rinsio yn y sinc cyn iddynt gael eu sterileiddio. Gwnaethom argymhell y dylid defnyddio bowlen ar wahân ar gyfer rinsio offerynnau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05² (WHTM01-05).

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis sicrhau bod bowlenni yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a rinsio offerynnau deintyddol â llaw yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.

² Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwnaethom sylwi y dechreuwyd ar archwiliad rheoli heintiau, ond ni chafodd ei gwblhau yn unol â WHTM 01-05.

Y gwelliant sydd ei angen

Argymhellir bod y practis yn cwblhau'r archwiliad rheoli heintiau yn unol â'r hyn a argymhellir yn WHTM01-05, a'i fod yn datblygu cynllun gwella i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg.

Gwaredu ar wastraff

Roedd dogfennaeth contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei wahanu i fagiau/cynhwysyddion o wahanol liwiau er mwyn amlygu'r dull cywir o waredu arno. Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel tra eu bod yn aros i rywun eu casglu.

Cyfarpar radiograffig

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydrau-X) yn ddiogel. Roedd dogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phrofion. Fodd bynnag, roedd dogfennaeth gyfredol wedi'i storio ynghyd â hen wybodaeth. Golygai hyn ei fod yn anodd canfod y wybodaeth gyfredol a pherthnasol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis drefnu ei ffeiliau a rhoi unrhyw hen wybodaeth neu wybodaeth nad yw'n gyfredol mewn archif.

Nid oedd tystysgrif ar gael i gadarnhau bod un o'r deintyddion wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio oherwydd dywedwyd wrthym fod hon wedi'i chadw yn un o'r practisau eraill a oedd yn berchen i Restore Dental Group. Gwnaethom argymhell y gallai'r practis gadw copïau o'r holl dystysgrifau perthnasol yn yr holl bractisau lle roedd deintydd yn gweithio.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis anfon copi o'r dystysgrif at AGIC sy'n cadarnhau bod y deintydd dan sylw wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Cadw cyffuriau ac offer brys

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai

un o'r cleifion yn cael argyfwng (llewygu) yn y practis. Golygai hyn fod gan staff y sgiliau angenrheidiol a mynediad at offer achub bywyd a chyffuriau i'w galluogi i weithredu ar unwaith pe bai un o'r cleifion yn llewygu.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion 40 o gleifion, gan gynnwys cofnodion wrth bob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion a welsom yn foddhaol. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod y dull o gadw cofnodion yn anghyson, ac nid oedd rhai o'r cofnodion a welsom yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Nid oedd gan un o'r cofnodion hanes meddygol cleifion a welsom gydlofnod gan y deintydd, a fyddai wedi dangos bod y deintydd wedi darllen y wybodaeth bwysig hon. Roedd rhai hanesion meddygol a welsom yn eithaf hen, ac roedd angen eu diweddarau. Mewn rhai cofnodion, gwelsom na chofnodwyd trafodaethau ynglŷn â gwahanol opsiynau triniaeth a oedd ar gael i gleifion. Gwnaethom edrych ar sut roedd cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi, ac ni welsom gofnod cydsyniad ar gyfer archwiliadau a thriniaethau penodol ym mhob achos.

Gwelsom fod cleifion yn cael pelydrau-X yn ystod cyfnodau amser priodol, a bod ansawdd y pelydrau-X yn cael ei fonitro.

Gwnaethom sylwi bod gwybodaeth cleifion yn cael ei storio mewn ffeiliau papur yn ogystal ag ar y system gyfrifiadurol. Gwelsom un achos lle roedd manylion cyswllt claf yn cael eu cofnodi'n anghywir yn y ffeil bapur ac yn gywir ar y system gyfrifiadurol. Cafodd hyn ei gywiro ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at yr anawsterau posibl a'r risg o wneud camgymeriad pan fod dwy system ar waith ar y cyd. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried dulliau o sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn gywir ar draws y ddwy system.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn gyflawn ac yn gywir, a'u bod yn cynnwys:

- ***Hanes meddygol wedi'i gydlofnodi (gan ddeintydd)***
- ***Opsiynau triniaeth sydd wedi'u trafod gyda'r claf***
- ***Cydsyniad y claf***

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Ar adeg yr arolygiad, bu newid perchnogaeth yn y practis yn ddiweddar, ac roedd cyfnod pontio ar waith.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Gwelsom staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm, a dywedodd yr holl staff wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau.

Dywedodd staff Practis Deintyddol Llaneirwg wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau ac yn hapus yn eu gweithle. Dywedodd yr holl staff wrthym eu bod yn derbyn hyfforddiant rheolaidd, a gwelsom gryn dipyn o dystiolaeth o hyn. Gwelsom hefyd dystiolaeth o'r hyfforddiant a sesiynau cynefino cynhwysfawr a gynhaliwyd ar gyfer aelodau newydd staff y practis. Golygai hyn y gallai cleifion fod yn sicr eu bod yn derbyn triniaeth gan staff sydd â'r sgiliau priodol ac wedi derbyn hyfforddiant cyfredol, ac sy'n hyderus ac yn gyfarwydd â'u gweithle. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi llwyddo i ennill Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl³, sy'n achrediad ar gyfer sefydliadau sy'n dilyn fframwaith arfer gorau i reoli pobl.

Dywedodd staff wrthym hefyd am gyfarfodydd tîm, a gynhaliwyd tua phob chwech wythnos. Gwelsom gofnodion y tri chyfarfod diwethaf, a wnaeth gadarnhau bod pynciau perthnasol yn ymwneud â datblygiad y practis a gofal cleifion wedi cael eu trafod.

Gwelsom gadarnhad bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod yswiriant indemniad priodol ar waith ar gyfer yr holl staff clinigol. Gwelsom gofnodion imiwneiddio rhag hepatitis B ar gyfer staff clinigol, a oedd yn dangos bod yr holl staff yn cael eu diogelu rhag firysau a gludir yn y gwaed. Gall cleifion gael sicrwydd eu bod yn derbyn triniaeth gan bobl broffesiynol sydd wedi cael eu cofrestru ac sydd ag amddiffyniad priodol ar waith.

Yn unol â'r rheoliadau⁴ perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd yr holl ddeintyddion a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Fodd

³ <http://www.investorsinpeople.co.uk/journey/framework-v>

⁴ Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009.

bynnag, gwelsom nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth yn gyfredol. Gwnaethom atgoffa'r practis i hysbysu tîm cofrestru AGIC am unrhyw wybodaeth a ddiweddarwyd fel y gellir darparu tystysgrifau newydd.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r holl ddeintyddion sydd wedi'u cofrestru gydag AGIC i ddarparu triniaeth breifat sicrhau eu bod yn arddangos tystysgrif gofrestru gyfredol AGIC.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â'r practis, a wnaeth gytuno i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn diweddarau eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Nid yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n eu cyflogi yn ymgymryd â gwiriadau i sicrhau bod staff yn addas ar gyfer cyflogaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o dystysgrifau cynnal a chadw a rhestrau offer yn y practis. Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer wedi'i archwilio yn unol â'r gofynion gorfodol. Felly, gallai staff a chleifion fod yn hyderus bod systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei arolygu yn rheolaidd ac yn cael ei gynnal a'i gadw i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i'r holl gleifion godi pryderon (cwynion). Dylai'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cydymffurfio â rheoliadau GIG yn ogystal â rheoliadau preifat ar gyfer cleifion sy'n derbyn y naill driniaeth neu'r llall. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis system ar waith ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig oherwydd nad oedd yr holl ohebiaeth yn cael ei chofnodi. O ganlyniad, roedd risg na fyddai'r practis yn gallu olrhain cam na chanlyniad cwyn. Gwnaethom argymhell bod y practis yn cadw cofnod o'r holl gwynion (boed yn ysgrifenedig neu ar lafar) er mwyn cadw golwg arnynt ac i ddysgu wrth unrhyw themâu neu dueddiadau a nodwyd.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis ddyfeisio system addas i gofnodi cwynion, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd y practis deintyddol i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr adeilad yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r cleifion gael eu gweld ynddo gan eu deintydd. Mae'r practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Mae Practis Deintyddol Lloneirwg wedi'i leoli ger yr archfarchnad yn ardal Lloneirwg, Caerdydd. Mae nifer cyfyngedig o fannau parcio dynodedig ar gael y tu cefn i'r adeilad, ond mae mannau parcio ar gael gerllaw, gan gynnwys maes parcio cyhoeddus.

Roedd taith o amgylch yr adeilad yn cadarnhau bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol y tu mewn a'r tu allan, er gwnaethom sylwi y gallai'r arwyddion fod yn aneglur, yn enwedig ar gyfer y cleifion hynny â nam ar eu golwg.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis ystyried gwella'r arwyddion yn y practis, gan gynnwys defnyddio ffont mwy o faint er mwyn i hysbysiadau fod yn fwy amlwg i gleifion sydd â nam ar eu golwg.

Mae'r practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn am fod mynediad lefel i'r adeilad, ac mae deintyddfa lawr llawr lle gallai cleifion gael eu gweld.

Gwelsom fod diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol, ac roeddent wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd dwy ystafell aros, un i fyny'r grisiau a'r llall lawr llawr. Roedd y ddwy ohonynt yn lân, yn dactus, ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n foddhaol. Cadarnhaodd arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad fod maint y mannau aros yn briodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd.

Gwnaethom ganfod bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Dywedodd staff wrthym fod cofnodion electronig yn cael eu hategu bob dydd a bod cofnodion papur yn cael eu storio mewn cypyrddau ffeilio dan glo. Golyga hyn fod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch cleifion a'u gwybodaeth.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Llaneirwg yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol:

Cynllun Gwella

Practis: Restore Dental Group

Practis Deintyddol Llaneirwg

Dyddiad yr arolygiad:

5 Tachwedd 2014

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	-			
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
7	Dylai'r practis sicrhau bod bowlenni yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a rinsio offerynnau deintyddol â llaw yn unol â chanllawiau WHTM01-05. [Canllawiau WHTM 01-05, Adran 24r]	Rydym wedi siarad â chwmnïau deintyddol ac rydym yn edrych ar yr opsiynau sydd ar gael. Dylid cwblhau hyn erbyn 30/4/2015. Cam gweithredu Sarah Meril/Emily Williams		30/04/2015
8	Argymhellir bod y practis yn cwblhau'r archwiliad rheoli heintiau yn unol â'r hyn a argymhellir yn WHTM01-05, a'i fod yn	Mae Archwiliad 1 wedi ei gwblhau a bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae sesiwn hyfforddiant i'r holl staff wedi cael ei drefnu ar		Yn parhau

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	datblygu cynllun gwella i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg. [Canllawiau WHTM 01-05, Adran 1.8]	01/05/2015 lle bydd canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu trafod a bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu. Cam gweithredu yr holl staff i fod yn rhan o adolygiad o'r polisi rheoli croes heintio cyfredol.		
8	Dylai'r practis anfon copi o'r dystysgrif at AGIC sy'n cadarnhau bod y deintydd dan sylw wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf. [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IR(ME)R2000)]	Mae copi wedi ei sganio o dystysgrif IRMER Dr Raid Ali ynghlwm.		Yn syth
9	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn gyflawn ac yn gywir, a'u bod yn cynnwys: - Hanes meddygol wedi'i gydlofnodi (gan ddeintydd) - Opsiynau triniaeth sydd wedi'u trafod gyda'r claf - Cydsyniad y claf [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4;	Yn parhau - Partneriaid yn gwirio nodiadau ar hap Diweddarau hanes meddygol pob claf. Cadw nodiadau ar gyfrifiadur wedi cael ei gyflwyno Cydsyniad wedi ei gael ar gyfer pob claf.		Monitro parhaus

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, safonau 20c, 7a]			
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
11	Rhaid i'r holl ddeintyddion sydd wedi'u cofrestru gydag AGIC i ddarparu triniaeth breifat sicrhau eu bod yn arddangos tystysgrif gofrestru gyfredol AGIC. [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau (Diwygiedig) Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2011, Adran 28 (1), Rhan II, Adran 7]	Mae pob un o'n deintyddion wedi cofrestru gydag AGIC ac mae hyn yn cael ei arddangos ar ddrysau'r ddeintyddfa.		Cwblhawyd
11	Dylai'r practis ddyfeisio system addas i gofnodi cwynion, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.7]	Mae system addas ar waith. Mae pob cwyn a chanmoliaeth yn cael ei logio a'i adolygu o'r dechrau at y canlyniad terfynol		Yn parhau
	Ansawdd yr Amgylchedd			
12	Dylai'r practis ystyried gwella'r arwyddion yn y practis, gan gynnwys defnyddio ffont mwy o faint er mwyn i hysbysiadau fod yn fwy	Mae'r practis wedi cael ei addurno'n ddiweddar ac mae pob arwydd i gael ei arddangos mewn ffordd wahanol.		30/04/2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	amlwg i gleifion sydd â nam ar eu golwg. [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, safonau 18e; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1.1]			

Enw (printiwch): Sarah Meril

Rheolwr Gweithredol Grŵp

Dyddiad: 30/03/2015